

## **ATODIAD 3**

### **ARBEDION**

1. Ers 2015/16, mae dros £30m o gynlluniau arbedion wedi'u gwireddu gan Cyngor Gwynedd, ond amcangyfrif na fydd gwerth £3.3m o arbedion yn cael eu gwireddu.
2. Ar y 13eg o Hydref 2020, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad 'Trosolwg Arbedion' yn nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2020/21, 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.
3. Nodwyd bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth dilyffethair i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng, a hynny wedi golygu na fu modd parhau efo rhai o'r trefniadau arbedion dros gyfnod yr argyfwng.
4. Cefnogwyd bwriad y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i drefnu i gyfarfod pob Aelod Cabinet gyda'u Penaethiaid Adran, i drafod sut bydd modd ail afael yn y drefn o gyflawni'r arbedion arfaethedig, fel bydd modd i'r Cyngor symud ymlaen efo cyfran o'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.
5. Yn ogystal, ar 13 Hydref 2020 bu i'r cabinet ystyried adroddiad 'Strategaeth Cyllideb' a oedd yn ceisio darogan y sefyllfa ariannol y byddwn yn ei wynebu yn 2021/22.
6. Cymeradwywyd trefn ac amserlen llunio Cyllideb 2021/22, tra'n nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhuthro i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol yng nghanol yr argyfwng.
7. Wrth gwrs, mae hyn yn dilyn blynyddoedd blaenorol lle nad oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a chan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
8. Oherwydd hynny, tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd, roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
9. Ar 26 Ionawr 2021, wedi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod yr Aelodau Cabinet a'u Penaethiaid Adran perthnasol, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad 'Sefyllfa Arbedion' lle penderfynwyd gohirio neu dileu arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu – fel amlinellir yn y tabl 'Gohirio / Dileu' isod.

10. Cyfeirir yma at yr arbedion a ddewiswyd yn wreiddiol at ddibenion cwrdd ag elfen o'r galwadau ychwanegol am wasanaethau'r Cyngor wrth osod cyllideb 2021/22. O'r cynlluniau arbedion oedd i'w gwireddu yn 2021/22, cytunwyd dylid symud proffil cyflawni gwerth £511k ohonynt i 2022/23, a chydabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni gwerth £595k o gynlluniau arbedion 2021/22.

<b>Arbedion</b>	<b>Gohirio i 2022/23 £</b>	<b>Dileu £</b>
Cynlluniau 2017/18 - 2020/21	1,037,750	848,040
Cynlluniau 2021/22	511,250	595,450
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,549,000</b>	<b>1,433,490</b>

11. Yn amlwg felly, bydd gwerth £1,106,700 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol erbyn 2021/22 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwloch cyllidebol 2021/22.

12. Ymysg nifer o gynlluniau llai, y penderfyniadau gohirio a'r dileu amlycaf gan y Cabinet ar 26 Ionawr 2021 oedd:

- dileu'r cynllun 'Dechrau i'r Diwedd' gwerth £1,128k o arbedion o gyllideb yr Adran Plant (£668k wedi ddileu o gynlluniau 2017 – 2021, a £460k pellach o gynlluniau 2021/22), a
- gohirio'r cynllun 'Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion' 2017 - 2021 gwerth £935k o arbedion o gyllideb yr Adran Oedolion.

13. Wrth osod cyllideb 2020/21, roedd darpariaeth wedi'w neilltuo er mwyn dygydd mod â'r risg o fethu gwireddu'r cynlluniau arbedion (gweithred hynod ddoeth gyda synnwyr trannoeth).

14. Er mwyn ariannu'r cynlluniau hanesyddol sydd heb eu gwireddu, defnyddiwyd £1.644m o'r ddarpariaeth yma, a penderfynwyd cyfarch y bwloch gweddilliol drwy ddefnydd cyntaf o £241,790 o'r arbedion bwriedir cyflawni ar gyfer 2021/22.

<b>Gohirio</b> Arbedion i 2022/23	£1,037,750
<b>Dileu</b> Arbedion	£848,040
<b>CYFANSWM</b>	<b>£1,885,790</b>
Llai:	
<b>Darpariaeth</b> yng nghyllideb 2020/21 ar gyfer methiant gwireddu arbedion 2017–21	£1,644,000
<b>Balans i'w ariannu yn 2021/22</b>	<b>£241,790</b>

15. Mae'r arbedion sydd i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn **2021/22** wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor. Wrth gwrs, maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ond rhestrir rheiny isod **er gwybodaeth**.

<b>Arbediad</b>	<b>Swm £</b>
<b>ADRAN ADDYSG AC YSGOLION</b>	
Arbedion ychwanegol ysgolion	65,000
<b>ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUEODD</b>	
Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal	23,170
<b>ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b>	
Gwella trefniadau cydgordio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo	45,000
Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran	33,750
<b>CYFANSWM</b>	<b>78,750</b>
<b>ADRAN TAI AC EIDDO</b>	
Cynllun Arbed Ynni Salix	33,380
Dileu swydd o'r Gwasnaeth Diogelwch Eiddo	22,500
Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amldeiliadaeth	20,380
Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol	75,000
Arbedion Ynni	150,790
<b>CYFANSWM</b>	<b>302,050</b>
<b>ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL</b>	
Trosglwyddo i system swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd	17,250
Dileu swydd swyddog adnoddau dynol a swydd ymgynghorydd adnoddau dynol	60,000
Dileu'r Gwasanaeth Datblygu'r Sefydliad	40,500
<b>CYFANSWM</b>	<b>117,750</b>
<b>ADRAN CYLLID (a T.G.)</b>	
Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd	5,000
Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	20,000
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol	75,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>100,000</b>

<b>ADRAN AMGYLCHEDD</b>	
Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach	20,000
Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rhai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio	15,000
Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	37,500
Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig	1,250
<b>CYFANSWM</b>	<b>73,750</b>
<b>ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL</b>	
Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'	105,000
Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau	75,000
Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	26,250
<b>CYFANSWM</b>	<b>206,250</b>
<b>CYFANSWM ARBEDION 2021/22</b>	<b>966,720</b>
Llai: Ariannu Balans Dileu Cynlluniau 2017 - 2021	-241,790
<b>CYFANSWM</b>	<b>724,930</b>

16. Bydd gwireddu'r cynlluniau a nodir yn y rhestr uchod yn cynhyrchu cyfraniad arbedion net o £725k yn 2021/22. Nodaf eto fod y cynlluniau arbedion yma eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Penderfynodd y Cyngor llawn, wrth osod cyllideb 2020/21 ar y 5ed o Fawrth 2020, ni ddylai'r arbedion "effeithlonrwydd" yma gael effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd.